Chwaraeon RhCT

Madison, Millie, Evan, and Connor

Ysgol Gynradd y Gelli

Mae Madison, Millie, Evan, a Connor yn Llysgenhadon Ifainc o Ysgol Gynradd y Gelli. Maen nhw wedi bod yn rhoi eu prosiect ar waith i wella sgiliau symud sylfaenol mewn 3 camp yn yr ysgol. Fe wnaethon nhw ymgynghori â'u cyfoedion a dylunio'r prosiect yma, ac yna cyflwyno'r syniad yn ein hachlysur Dragons Den. Mae un o'n hyfforddwyr cymunedol wedi bod yn eu mentora'n wythnosol i wella eu sgiliau a'u hyder ac rydyn ni'n falch o weld pa mor bell maen nhw wedi dod.

“Rydyn ni wedi mwynhau bod yn llysgenhadon ifainc yn fawr eleni – mae wedi bod yn llawn hwyl ac wedi ein cadw ni’n heini! Cawson ni gyfle i ddysgu llwyth o gemau i'r plant eraill ac fe wnaeth hynny amseroedd chwarae yn llawer mwy cyffrous.”

"Mae gweithio gyda Gazza wedi bod yn grêt - mae e wedi'n dysgu ni sut i fod yn arweinwyr gwych. Mae e'n ddoniol hefyd! Rydyn ni'n teimlo'n fwy hyderus a nawr mae rhai ohonon ni hyd yn oed yn mynd i glybiau pêl-rwyd a phêl-droed yr ysgol, sy'n newydd i ni."

"Bydden ni'n hoffi parhau i fod yn llysgenhadon gan ein bod ni’n mwynhau dangos i bobl eraill sut i chwarae a’u helpu nhw i gymryd rhan. Rydyn ni'n teimlo'n falch wrth weld pawb yn cymryd rhan ac yn mwynhau."

LLYSGENNAD IFANC Y MIS - GORFFENNAF 2025

Chwaraeon RhCT Sport RCT

sportwales chwaraeoncymru

YOUTH SPORT TRUST

RHONDDA CYNON TAF